# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Dachwedd, 2022** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Tabor Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i LJ am ddefnydd o Gapel Tabor i gynnal y cyfarfod ac ymestyn croeso arbennig i Catrin Huws sy'n ymuno i drafod Cynllun Peilot Ardal Dwyfor<br><br>Yn bresennol heno roedd:<br>Catrin Huws **(CH);** Emlyn Williams **(EW**) Lisbeth James **(LJ)**; William Jones **(WJ)** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Lois Fychan **(LF);** Gethin Jones **(GJ)**; Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ynyr Ellis **(YE);** Sara Williams **(SW).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD HYDREF 2022** |
| | **a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br><br>Cynigwyd Cofnodion Cyfarfod Hydref yn gywir gan LF gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno. Clerc i ychwaneg enw Gethin I'r cyfarfod hyffordiant.<br><br>**b) <u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>**I. <u>Twmpathau Llithfaen</u>**<br>Derbyniwyd adborth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor yn cadarnhau eu bod yn ymddangos nad yw'n fwriad gan yr Adran Draffig i addasu/ymestyn y twmpathau presennol felly mi fydd yr Adran Priffyrdd yn archwilio'r twmpathau a chaiff unrhyw waith angenrheidiol ei raglennu.<br><br>**II. <u>Twll Ar Ochor y Lon Ger Uwch y Don Pistyll</u>**<br>Derbyniwyd adborth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor yn cadarnhau mae'r safle wedi cael ei ddiogelu gyda chlwydi a bydd angen gwaith i adnewyddu'r draen presennol.<br><br>**III. <u>Dwr Yn Rhedeg O'r Wal I Lawr Y Ffordd Heibio Tabor</u>**<br>Derbyniwyd adborth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor yn cadarnhau bod gwaith i lanhau gydag ochr y ffordd wedi cael ei basio i'r gweithlu. Adroddodd yr aelodau bod y gwaith wedi ei ddarparu ond wedi amharu a dŵr ar dir SP. Y ddau fater wedi eu datrys erbyn hyn. |

| | |
|---|---|
| | **IV. <u>Lon Groes  Pistyll I Nefyn</u>**<br>Adroddodd GJ bod y lon nawr yn cael ei adnabod fel Bwlch Gwynt yn hytrach na Lon Groes.  Gofynnodd y Cyngor Sir am fwy o wybodaeth sef:<br>• Oes  ryw dystiolaeth i gefnogi eich honiad fod y ffordd wedi enwi yn anghywir?<br>• Ydi bob eiddo ar hyd y ffordd yn o blaid newid enw'r ffordd?<br>Adroddodd GJ bod son am dystiolaeth hysterig wedi ei dderbyn , ond erbyn hyn mae'r enw wedi ei newid ar Google Maps - Bydd yn paratoi deiseb i ymateb i'r Cyngor Sir.<br><br>**V. <u>Tudalen FB I'r  Cyngor</u>**<br>Diolchodd SP i GJ am baratoi tudalen FB i'r Cyngor, sydd nawr yn fyw - https://www.facebook.com/groups/826845991994304<br><br>**VI. <u>Gordyfiant ger Bryn Celyn Isaf</u>**<br>Derbyniwyd adborth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor yn cadarnhau bod Gwaith wedi cael ei basio i'r gweithlu.  Adroddodd yr aelodau bod y gwaith bellach wedi ei wneud.<br><br>**VII. <u>Pen Isa'r Lon, Pistyll - Cwyn am ordyfiant</u>**<br>Derbyniwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn hysbysebu eu bod wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith pan fydd adnodd ar gael. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei dderbyn |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr da. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod |
| **7.** | **CYNLLUN PEILOT ARDAL DWYFOR** |
| | Gwrandawyd ar adroddiad manwl gan Catrin Huws yn esbonio pwrpas y prosiect.  Gofynnodd i'r aelodau am eu sylwadau.<br><br>• Rhannodd LJ bryderon am Bolisi Gosod Lleol sy'n aneffeithiol gyda mewnfudwyr digartref a dioddefwyr thrais yn y cartref yn wastad cael cynnig cyntaf ar dai rhent.<br><br>• Rhannodd OR bryderon am gosb Treth y Cyngor wrth etifeddu tai.<br><br>• Rhannodd SP ei barn bod angen rheolau llym ar gartrefi gwyliau ac air bnb.<br><br>• Cytunodd yr aelodau nad yw Polisïau yn ystyried pob sefyllfa, rhestr eithriadau eu hangen. |

| | |
|---|---|
| | • Rhannodd SP bryderon pellach am broblemau cael cytundeb ar Forgais gyda rhwystr a Rheol 106 ar gynlluniau newydd.<br>Anodd iawn yw diogelu cartrefi i bobol leol os byddent yn methu cael morgais ar gartref.<br><br>• GJ yn lleisio barn i ddileu rheol 106 yn gyfan gwbl ac yn argymell ei fod yn rhwystr gan Dai Teg<br><br>• Rhannodd SP bryderon sydd wedi ei adrodd i'r Adran Gynllunio nad oes digon o amser yn cael ei gynnig i Gynghorau Cymuned ymateb i Geisiadau Cynllunio.<br><br>Ar ddiwedd y drafodaeth cytunwyd bydd CH yn diweddaru'r Cyngor gydag unrhyw ddatblygiadau a newyddion. Diolchodd SP iddi am y wybodaeth ac am ei phresenoldeb. |
| **8.** | **DIWEDDARIADAU CYFARFOD GYDA RHEOLWR TRAFFIG A PHROSIECTAU A'R TÎM TACLUSO 01/11/22** |
| | Nid oedd y clerc wedi derbyn adroddiad nac Rhaglen Waith gan y Rheolwr Traffig A Phrosiectau hyd yn hyn.<br><br>Adroddodd SP materion a godwyd yn ystod y cyfarfod:<br><br>**a)** **Twmpathau arafu presennol Llithfaen angen eu trwsio ond yn ddelfrydol cael rhai ar draws y ffordd. Traffig Nant Gwrtheyrn i lawr y lon i'r pentref (angen twmpath wrth ymyl Tabor?) -**<br>Y Swyddog yn cynghori nid yw cyflwr y twmpathau presennol yn rhy ddrwg.<br>Cytunwyd I ychwannegu twmpathau yn y West End a gwneuthpwyd cais bod rhain yn rhei ar draws y lon.<br>Ni thrafodwyd twmpathau ychwanegol wrth Dabor. Adroddodd y clerc bod y Swyddog wedi cytuno i wneud asesiad gyda bwriad i leoli yn y gorffennol. Y clerc i ail rannu'r ohebiaeth gyda'r aelodau. Y clerc i lythyru ar swyddog i ofyn am ddiweddariad.<br><br>b) **Parcio tu allan i'r siop (arwydd llwytho yn unig)** –<br>Cytunwyd i drafod y cais gyda'r adran<br><br>c) **Pont Minafon llinellau newydd** –<br>Bydd yr arwyddion i ddilyn yn fuan<br><br>d) **Cyffordd ger y siop - arwyddion Stop / Give way** –<br>Y swyddog yn rhagweld problemau lleoli, bydd yn cadarnhau yn fuan.<br><br>e) **Arwyddion Nant Gwrtheyrn yn cymhlethu pethau!** –<br>Cytunwyd i wneud asesiad gyda bwriad ei ail leoli.<br><br>f) **Arwyddo tri deg yn West End erioed wedi gweithio** –<br>Roedd hwn yn rhan o gynllun sydd wedi hen farw - cais i'w dynnu yn ystod cynllun tacluso arwyddion.<br><br>**g)** **Dim arwyddo 30 wrth ddod o Nant –**<br>Cais wedi ei wneud, diweddariad i'w dderbyn. |

h) **Dim arwyddo o gwbl ar lon Rhosydd** –
Trafodwyd pa arwydd fydd orau - diweddariad i'w dderbyn yn hwyrach.

**i) Angen glanhau a throi'r arwyddion i wynebu'r ffordd iawn -**
Bydd y gwaith uchod yn cael ei wneud fel rhan o raglen arwyddion yn dilyn bwriad gostwng cyflymder y Llywodraeth.

j) **Dwr ar gornel Tabor i lawr i'r pentref a dŵr o gae dan y Ganolfan heibio'r cae chwarae** -
Cydnabod bod yn broblem - gwaith clirio wedi ei wneud bellach ger Tabor.

**k) Y twll ger y Fynwent –**
Cais wedi ei wneud, diweddariad i'w dderbyn.

**l) Y llain tir trwy'r pentref (ceir yn parcio a'i droi yn fwd) –**
Ni fydd y Cyngor Sir yn paratoi unrhyw waith i'w darmacio. Cytunwyd i drafod unrhyw gynllun fydd y Cyngor Cymuned yn gynnig ar gostau eu hunan.
Adroddodd SP bod hyn wedi ei drafod hefyd yn ystod Cyfarfod y Pentref gyda'r trigolion yn mynegi barn nad oeddent isio rhwystro parcio ar y safle a cheisiadau pellach wedi ei derbyn i'w darmacio.
Cytunodd EW wneud ymholiadau am gostau gydag arbenigwr lleol.

m) **Llwybr cerdded i fyny allt Bryn Dirwest** -
Ni fydd y Cyngor Sir yn cynnig i sefydlu unrhyw lwybr

n) **Gordyfiant Pont Bryncelyn** –
Y gwaith bellach wedi ei wneud.

o) **Chwistrellu chwyn a thacluso -**
Y gwaith chwistrellu wedi ei wneud, bydd y safle bws yn cael ei lanhau yn y dyfodol. Byddent hefyd yn lleoli bin newydd yn groes a thacluso arwyddion a'r toiledau.

**9. CYNLLUN HYFFORDDIANT STATUDOL CYNGOR CYMUNED**

Yn dilyn cyfarfod arbennig gyda SP, LJ a GJ cytunwyd argymell i'r Cyngor gynnig yr hyfforddiant isod ar y lleiafrif dros gyfnod o 5 mlynedd. Cynigiodd GJLJ ei dderbyn gydag GJ yn eilio

| | | |
|---|---|---|
| | Ymsefydlu Cynghorydd newydd | Aelodau newydd |
| 10 | Sgiliau Cadeirio | Is gadeirydd |
| | Cynllunio | Pob aelod |

Rhannodd y clerc wybodaeth am hyfforddiant heb gost i ddau aelod i fynnu at fis Ionawr.
Cost arferol yr hyfforddiant yw £35 i aelodau neu £55 I'r clerc.
Cytunodd LF fynychu Hyfforddiant Modiwl 6 ar y 17/11/22 - y clerc i drefnu.

Derbyniwyd cais gan yr aelodau i lythyru yn datgan siomedigaeth gref mae dim ond un Modiwl allan o ddau ddeg tri sydd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg - y clerc i lythyru.

| | |
|---|---|
| **10.** | **NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R MAP SWYDDOGOL - HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS GER AFON ERCH, I'R GOGLEDD DDWYRAIN O LWYNDYRYS (CYFEIRNOD GRID AOSH378418)** |
| | Adroddodd y clerc am fwriad i newid y map swyddogol er mwyn gwella hawliau tramwy cyhoeddus yn yr ardal, yn benodol i hawl tramwy rhif 20 yn Llannor a rhif 22 ym Mhistyll.<br>Gan nad oedd hyn yn amharu yn uniongyrchol a'r Cyngor cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad. |
| **11.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP bod penderfyniad wedi ei wneud gan Bwyllgor y Ganolfan i ohirio marcio'r lleoliadau parcio hyd nes bydd y gwaith ar y Ganolfan wedi ei gwblhau. |
| **12.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Dim diweddariadau pellach. |
| **13.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) GJLJ - Angen adrodd i BT am ddifrod i bolyn stay gyferbyn a'r safle Dwr ar Lon Isaf sydd yn amharu yn beryg a gweddill y polion. Y polyn wedi ei ddifrodi yn dilyn damwain ac angen ei ail osod.<br><br>b) OR - Tyllau wedi ymddangos o ganlyn dŵr o'r gyffordd wrth y siop am droiad Lon Isaf hefyd i fynnu am Nant Gwrtheyrn.<br><br>c) OR - Angen glanhau traeniau o flaen Tŷ Tegwch, Llithfaen (cone yn y draen) hefyd traeniau cyffredinol y Ward. |
| **14.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) <u>Diweddariad Ar y Cynnig Datblygu Gwasanaethau'r Gwasanaeth Adalw A Throsglwyddo Meddygol Brys (Emrts Cymru)</u>**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau gan fod y cyfarfod wedi digwydd yn gynharach<br><br>**b) <u>Cyflog i Glercod Cyngor Cymuned sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2022</u>**<br>Cytunwyd i godi cyflog y clerc ac ad dalu o Ebrill 2022<br><br>**c) <u>Datganiad Newyddion -Ambiwlans Awyr Cymru: Corff Gwarchod Iechyd yn Croesawu Sgyrsiau Pellach Ynglŷn â'r Cynlluniau</u>**<br><br>**d) <u>Dyddiadau Hyfforddiant Tachwedd a Rhagfyr</u>**<br>Trafodwyd ym mhwynt 9<br><br>**e) <u>Bwletin Newyddion Un Llais Cymru</u>**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau |

| | |
|---|---|
| | **f)** **Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd Mis Tachwedd 2022**<br>Gwerthfawrogwyd y wybodaeth<br><br>**g)** **Y Gronfa Datblygu Cynhaliadawu - Ahne Llyn**<br>Gwerthfawrogwyd y wybodaeth – Trafodwyd posibilrwydd gwneud cais ar gyfer pwynt 8 (l)<br><br>**h)** **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru Ar Gydnabyddiaeth Ariannol Chwefror 2023**<br>Penderfynwyd I'w drafod Chwefror 2023 |
| **15.** | **CYLLID** |

**a)** **CYSONIAD A RHAGAMCANION 2022/23**

Cymeradwywyd y cysoniad a'r rhagamcanion gyda'r aelodau yn cytuno eu cywirdeb

**b)** **CYFRIFLEN BANC**

| **CYFRIF CYFREDOL – 1 o Hydref i 31 o Hydref 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 15,925.93 |
| Taliadau i mewn | 0.00 |
| Taliadau allan | 748.45 |
| Balans terfynol | 15,177.48 |

| **CYFRIF CADW – 7 o Fai i 6ed o Fedi 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 2,661.01 |
| Taliadau i mewn | 0.99 |
| Taliadau allan | 0.00 |
| Balans terfynol | 2,662.00 |

**c)** **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

Derbyniwyd cais am nawdd gan Bwyllgor y Cae Chwarae i bwrpas anrhegion Siôn Corn i blant y pentref ym mharti Nadolig y Cae Chwarae - Cynigiodd OR eu cefnogi am £200, eiliodd GJ a chytunodd pawb.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **201256** | G. Jones | Nwyddau | **35.00** |
| **201257** | Pwyllgor Cae Chwarae | Anrhegion Siôn Corn | **200.00** |
| **201258** | G. Thomas | Cyflog | **250.00** |
| | | Treuliau | **34.45** |
| | | Ôl dal hyd at Ebrill 2022 | **140.00** |

| 16. | CYFARFOD NESAF Y CYNGOR |
|---|---|
| | Oherwydd problemau gyda pharcio yn Nhabor, cynnigiodd LJ glirio a thacluso Festri Capel Isaf. Cymeradwywyd ei chynnig.<br>Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor am 7 y.h. - Y Festri, Capel Isaf – 13 o Ragfyr, 2022 |